Senedd Cymru
Busnes y Senedd

# Gwelliannau i Filiau: Canllawiau ar ddehongli a chymhwyso meini prawf derbyniadwyedd

Cyhoeddwyd gan y Llywydd o dan Reol Sefydlog 6.17

Mawrth 2026

www.senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

## Gwelliannau i Filiau: Canllawiau ar ddehongli a chymhwyso meini prawf derbyniadwyedd

Cyhoeddwyd gan y Llywydd o dan Reol Sefydlog 6.17 yn dilyn materion a godwyd yn ystod adolygiad y Pwyllgor Busnes o'r broses ar gyfer Biliau Cyhoeddus a Biliau Aelod sy'n ymwneud â swyddogaethau'r Llywydd.

Ffocws y canllawiau yw'r meini prawf derbyniadwyedd cyffredinol ar gyfer diwygiadau i Filiau Cyhoeddus a gyflwynir o dan Reol Sefydlog 26. Mae meini prawf cyffredinol sy'n cyfateb yn fras i Reolau Sefydlog 26A i 26C (Biliau Preifat/Hybrid/Cydgrynhoi), yn ogystal â meini prawf sy'n benodol i'r categorïau hynny o Filiau. Mae yna hefyd feini prawf penodol ychwanegol sy'n gymwys i gyfnodau penodol yn y broses o graffu ar Filiau Cyhoeddus a gyflwynir o dan Reol Sefydlog 26; y cyfnodau hyn yw Cyfnod 3 pellach, y Cyfnod Adrodd, y Cyfnod Adrodd pellach, y Cyfnod Ailystyried, a'r Cyfnod Ailystyried pellach.

Dylid ystyried y canllawiau ochr yn ochr â'r canlynol:

Rheolau Sefydlog Senedd Cymru

Penderfyniadau'r Llywydd ar gyfer ffurf briodol Biliau Cyhoeddus a gwelliannau i Filiau Cyhoeddus

Canllaw i'r broses ddeddfu

# Cynnwys


Dehongli a chymhwyso meini prawf derbyniadwyedd ... 4

Cyffredinol ... 4

Gweithdrefn, cynsail ac arfer ... 4

Ffurf briodol (Rheol Sefydlog 26.61(i)) ... 5

Perthnasedd (Rheol Sefydlog 26.61(ii)) ... 8

Cysondeb ag egwyddorion cyffredinol (Rheol Sefydlog 26.61(iii)) ... 10

Cysondeb â phenderfyniadau a wnaed eisoes (Rheol Sefydlog 26.61(iv)) ... 12

Cymhwysedd deddfwriaethol ... 13

# Dehongli a chymhwyso meini prawf derbyniadwyedd

## Cyffredinol

**1.** Mae Rheolau Sefydlog 26.58 i 26.66 yn gymwys i welliannau yn nhrafodion Cyfnod 2, trafodion Cyfnod 3, trafodion y Cyfnod Adrodd, neu yn y Cyfnod Ailystyried.

**2.** Rhaid i'r Llywydd benderfynu ar ffurf briodol gwelliannau i Fil (Rheol Sefydlog 26.58).

**3.** Nid yw gwelliant yn dderbyniadwy:

i. os nad yw ar ei ffurf briodol yn unol â Rheol Sefydlog 26.58;

ii. os nad yw'n berthnasol i'r Bil neu ddarpariaethau'r Bil y byddai'n ei ddiwygio;

iii. os yw'n anghyson ag egwyddorion cyffredinol y Bil fel y cytunwyd arnynt gan y Senedd; neu

iv. os yw'n anghyson â phenderfyniad sydd eisoes wedi'i wneud yn y Cyfnod pryd y mae'r gwelliant yn cael ei gynnig (Rheol Sefydlog 26.61).

## Gweithdrefn, cynsail ac arfer

**4.** Dim ond pan fydd testun gwelliant ar gael y gellir gwneud penderfyniadau terfynol ar dderbyniadwyedd.

**5.** Yn ymarferol, mae penderfyniadau ar ddehongli a chymhwyso'r Rheolau Sefydlog ynghylch derbyniadwyedd gwelliannau yn cael eu gwneud gan glercod ar ran y Llywydd.

**6.** Mae derbyniadwyedd yn dechrau gyda'r rhagdybiaeth bod gwelliant yn dderbyniadwy oni bai ei fod yn groes i un o amodau'r Rheol Sefydlog. Mae'n debygol y bydd bob amser rywfaint o oddrychedd wrth gymhwyso'r meini prawf, a gall penderfyniadau weithiau fod yn gytbwys iawn.

**7.** Gall cymhwyso'r meini prawf derbyniadwyedd yn ymarferol fod yn gymhleth. Caniateir uwchgyfeirio penderfyniadau at y Llywydd yn ôl disgresiwn clercod neu os gofynnir am hynny gan Aelod sy'n cyflwyno'r gwelliant.

**8.** Mae penderfyniadau'r Llywydd yn derfynol, ac (yn unol â swyddogaethau eraill y Llywydd):

- Nid oes rhaid rhoi rhesymau dros unrhyw benderfyniad.
- Nid oes unrhyw lwybr ffurfiol ar gyfer apelio (naill ai yn erbyn canfod nad yw gwelliant Aelod yn dderbyniadwy, neu yn erbyn canfod bod gwelliant Aelod arall yn dderbyniadwy).

**9.** Anogir Aelodau (a swyddogion cefnogol) i ofyn am gyngor yn gynnar i alluogi unrhyw faterion posibl ynghylch derbyniadwyedd i gael eu nodi a, chyn belled ag y bo modd, i gael eu datrys.

## Ffurf briodol (Rheol Sefydlog 26.61(i))

**10.** Mae'r Llywydd wedi cyhoeddi Penderfyniad o ran Ffurf Briodol Gwelliannau i Filiau Cyhoeddus yn unol â Rheol Sefydlog 26.58.

**11.** Byddai'n annhebygol y dyfernir nad yw gwelliant yn dderbyniadwy ar y sail nad yw ar ffurf briodol yn unig. Yn ymarferol, os yw'n ymddangos nad yw gwelliant arfaethedig ar ffurf briodol, bydd clercod yn cynghori Aelodau ar sut y gellir mynd i'r afael â materion o'r fath.

Enghraifft[1] – Ffurf briodol

Dim ond un newid i destun y Bil y gall pob gwelliant ei gynnig. Er enghraifft, gall gwelliannau:

- helpgor gair a rhoi gair gwahanol yn ei le;
- mewnosod un neu ragor o baragraffau newydd i restr o baragraffau presennol;
- hepgor adran neu Atodlen gyfan.

[1] Dylid trin pob enghraifft yn y canllawiau hyn fel enghreifftiau dangosol.

Ni all gwelliannau[2]:

- newid rhan o air, h.y. newid "ysgol" i "ysgolion" drwy ychwanegu "ion" (yn lle hynny, rhaid i'r gwelliant gynnig bod "ysgol" yn cael ei hepgor a bod "ysgolion" yn cael ei fewnosod);
- hepgor mwy nag un adran neu Atodlen gan ddefnyddio un gwelliant yn unig (mae angen gwelliannau ar wahân).

## Gwelliannau o'r un math

**12.** Er na ddarperir ar ei gyfer yn benodol yn Rheol Sefydlog 26.61 na'r Penderfyniad o ran ffurf briodol gwelliannau, fel mater o arfer seneddol, ystyrir nad yw gwelliant yn dderbyniadwy os oes gwelliant o'r un math eisoes wedi'i gyflwyno. Byddai hyn yn cynnwys gwelliannau sy'n amrywio o ran manylion dibwys yn unig na fyddent yn cael unrhyw effaith gyfreithiol. Mae'r arfer yn hwyluso cynnal busnes y Senedd yn y modd priodol drwy osgoi ailadrodd neu ddyblygu diangen.

**13.** Pan ystyrir nad yw gwelliant yn dderbyniadwy yn unol â'r arfer, bydd yr Aelod:

- Yn cael cyfle i amlinellu ei farn ar pam y byddai unrhyw wahaniaethau yn cael effaith gyfreithiol wahanol a/neu yn fwy na dibwys.
- Yn cael cyngor ar yr ystod o opsiynau gweithdrefnol sydd ar gael iddo, gan gynnwys:
  - ychwanegu ei enw i gefnogi'r gwelliant a gyflwynwyd eisoes[3];
  - os nad yw'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno gwelliannau yn y cyfnod diwygio hwnnw wedi mynd heibio:
    - addasu ei welliant arfaethedig fel ei fod yn wahanol o ran sylwedd i'r gwelliant a gyflwynwyd eisoes;

[2]Gweld Penderfyniad y Llywydd o ran y Ffurf Briodol: Gwelliannau i Filiau, paragraffau 4 a 5

[3] Mae ychwanegu ei enw at welliant yn dangos cefnogaeth i'r gwelliant hwnnw ond hefyd yn atal y cynigydd gwreiddiol rhag tynnu'r gwelliant yn ôl heb gefnogaeth pawb sydd wedi ychwanegu eu henwau.

    - cyflwyno gwelliant (neu welliannau) i'r gwelliant gwelliant a gyflwynwyd eisoes i geisio addasu unrhyw fanylion y mae'r Aelod sy'n cyflwyno'r gwelliant o'r farn bod eu hangen;

- gofyn i benderfyniad ynghylch derbyniadwyedd a wneir gan glerc gael ei uwchgyfeirio at y Llywydd ar gyfer penderfyniad terfynol.

Enghraifft – Gwelliannau o'r un math

Gwelliant a gyflwynwyd:

Adran 4, tudalen 3, ar ôl llinell 2, mewnosoder—

'( ) nid yw ci yn gath;'.

Gwelliant nad yw'n dderbyniadwy, oherwydd bod y gwelliant arfaethedig yn wahanol o ran agweddau dibwys yn unig i'r gwelliant a gyflwynwyd eisoes:

Adran 4, tudalen 3, ar ôl llinell 2, mewnosoder—

'( ) nid yw cŵn yn gathod;'.

## Perthnasedd (Rheol Sefydlog 26.61(ii))

**14.** Nid yw gwelliant yn dderbyniadwy os nad yw'n berthnasol i'r darpariaethau presennol yn y Bil (weithiau nodir ei fod y tu allan i'w cwmpas).

**15.** Mae perthnasedd yn golygu bod gan y gwelliant arfaethedig gysylltiad agos - boed hynny'n bwnc neu'n ddiben - â'r ddarpariaeth dan sylw.

**16.** Yn y Senedd, mae cwmpas Bil yn cynrychioli terfynau rhesymol ei ddibenion ar y cyd, fel y'i diffinnir gan ei ddarpariaethau presennol. Ystyrir perthnasedd gwelliant arfaethedig yn y cyd-destun hwn, ac nid yw'n brawf cyfreithiol. Nid yw cymhwyso'r maen prawf hwn wedi'i fwriadu i gyfyngu ar rôl Aelodau'r Senedd fel deddfwyr. Felly, mae'r rheol yn cael ei chymhwyso'n ofalus i hwyluso dadl wleidyddol.

**17.** Er enghraifft, ni ddylid disgwyl i berson chwilio am ddarpariaeth addysg mewn Bil sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd. Yn yr un modd, egwyddor arweiniol sy'n sail i ddull y Senedd o ymdrin â pherthnasedd yw na ddylid gofyn iddi yng Nghyfnod 4 bleidleisio ar Fil sy'n hollol wahanol i'r Bil y cytunodd y Senedd arno yng Nghyfnod 1.

**18.** Mae enw hir Bil yn darparu disgrifiad cryno o brif ddibenion Bil, ac mae'n ganllaw defnyddiol i bennu ei gwmpas yn y lle cyntaf. Fodd bynnag, nid yw'r enw hir yn fesur diffiniol y gellir ei ddefnyddio i bpennu perthnasedd.

**19.** Rhaid cymryd gofal fel nad yw geiriad yr enw hir yn gamarweiniol pan ystyrir perthnasedd. Caiff yr enw hir, er enghraifft, gynnwys y geiriau "ac at ddibenion

cysylltiedig", ond nid yw hyn yn agor y Bil i welliannau na fyddai, yn absenoldeb y geiriau hynny, yn berthnasol i ddibenion eraill y Bil.

**20.** Serch hynny, ar gyfer Biliau sydd (ar ôl eu cyflwyno) yn cynnwys mwy na dau ddiben/Rhan, efallai y bydd yn berthnasol ychwanegu diben ychwanegol drwy welliant cyn belled nad yw'r diben newydd yn fwy gwahanol o ran pwnc i'r dibenion presennol nag y mae'r dibenion hynny yn wahanol i'w gilydd. Mae rhai Biliau (weithiau wedi'u labelu'n Filiau "darpariaethau amrywiol") yn cynnwys nifer mawr o ddibenion gwahanol o fewn maes eang o bolisi. Ar gyfer Bil o'r fath, efallai y bydd yn bosibl cyflwyno drwy welliant unrhyw nifer o ddibenion newydd o fewn y maes polisi hwnnw. Fodd bynnag, hyd yn oed ar gyfer Bil o'r fath, byddai gwelliannau i gyflwyno dibenion mewn maes polisi arall yn gyfan gwbl yn debygol o fod yn berthnasol.

**21.** Yn ogystal â bod yn berthnasol i'r Bil cyfan, rhaid i bob gwelliant fod yn berthnasol i'r ddarpariaeth y mae'n cael ei wneud iddi. Er enghraifft, nid yw gwelliant i hepgor adran allan a mewnosod adran newydd yn ei lle yn briodol ond pan fo'r un diben i'r adran newydd yn ei hanfod â'r hen un, ond mae'n defnyddio ffurf wahanol ar eiriau i gyflawni'r diben hwnnw. Os yw'r adran newydd yn gwneud rhywbeth gwahanol i'r hyn y mae'n ceisio ei ddisodli, dylid cyflwyno dau welliant - un i hepgor yr adran bresennol, a'r llall i fewnosod yr un newydd.

Enghraifft - Perthnasedd

Y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru)

Enw hir: Deddf gan Senedd Cymru i sefydlu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil ac i wneud darpariaeth arall ynghylch addysg drydyddol (sy'n cynnwys addysg uwch, addysg bellach a hyfforddiant) ac ymchwil.

Gwelliant perthnasol: Gwelliant sy'n ceisio sicrhau mai'r Senedd, yn hytrach na Gweinidogion Cymru, a gaiff benodi aelodau'r Comisiwn.

Rheswm: Mae'r Bil fel y'i cyflwynwyd eisoes yn gwneud darpariaeth ar gyfer penodi aelodau'r Comisiwn; mae'r gwelliant yn ceisio newid pwy sy'n gyfrifol am y mater hwn.

Gwelliant nad yw'n berthnasol: Gwelliant sy'n ceisio codi'r oedran gorfodol i gymryd rhan mewn addysg.

Rheswm: Mae'r Bil fel y'i cyflwynwyd yn sefydlu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil i fod yn gorff rheoleiddio annibynnol sy'n gyfrifol am ariannu, goruchwylio a rheoleiddio addysg drydyddol ac ymchwil yng Nghymru. Mae hefyd yn gwneud darpariaeth ar gyfer cofrestru a rheoleiddio darparwyr addysg drydyddol, sicrhau ac ariannu addysg drydyddol ac ymchwil, prentisiaethau, a darpariaethau amrywiol eraill. Mae addysg drydyddol yn cwmpasu addysg ôl-16, gan gynnwys addysg bellach ac uwch, prentisiaethau a'r chweched dosbarth. Byddai ceisio codi'r oedran gorfodol i gymryd rhan mewn addysg - er enghraifft, o 16 i 18 - yn ceisio ychwanegu diben newydd sy'n wahanol i'r lleill. Byddai hefyd yn cael goblygiadau llawer ehangach na nodau gwreiddiol y Bil, h.y. ar y cwricwlwm ar gyfer plant o oedran ysgol gorfodol, ar sut y gellir cyflawni'r cwricwlwm, ar hawliau pobl ifanc 17 a 18 oed, na fyddai unrhyw un ohonynt wedi cael eu hasesu nac wedi cael cyfle i gymryd rhan mewn ymgynghoriadi cyn cyflwyno'r Bil.

**22.** Os oes amheuaeth, dylai'r Aelodau ofyn am gyngor gan y clerc perthnasol cyn ceisio cyflwyno gwelliant.

## Cysondeb ag egwyddorion cyffredinol (Rheol Sefydlog 26.61(iii))

**23.** Nid yw gwelliant yn dderbyniadwy os yw'n anghyson ag egwyddorion cyffredinol y Bil fel y cytunwyd arnynt gan y Senedd yng Nghyfnod 1. Bwriad y maen prawf hwn yw diystyru gwelliannau a fyddai'n gwrthdroi prif bwrpas Bil, yn ei newid yn sylweddol, neu'n ei wneud yn aneffeithiol. Mae gwelliannau o'r fath yn aml yn cael eu galw'n 'welliannau dinistriol'. Er enghraifft, byddai ceisio gohirio cychwyn darpariaeth o ddau fis ar ôl y Cydsyniad Brenhinol i 20 mlynedd ar ôl y Cydsyniad Brenhinol bron yn sicr o wneud nod y ddarpariaeth honno yn aneffeithiol.

**24.** Erbyn i'r Bil gyrraedd cyfnod diwygio (Cyfnod 2), mae'r Senedd eisoes wedi pleidleisio o blaid ei egwyddorion cyffredinol (yng Nghyfnod 1).

**25.** Y ffordd briodol i Aelodau sy'n gwrthwynebu egwyddor sylfaenol Bil yw gwrthwynebu'r cynnig i gymeradwyo'r egwyddorion cyffredinol yng Nghyfnod 1; neu, os nad yw unrhyw welliannau y cytunir arnynt yn ddiweddarach yn ddigonol i'w gwneud yn dderbyniol yn eu barn hwy, i wrthwynebu'r cynnig i basio'r Bil yng Nghyfnod 4.

**26.** Wrth benderfynu a fyddai gwelliant yn dinistrio'r Bil, mabwysiadir dull tebyg i'r hyn a ddisgrifir o dan 'Perthnasedd'. Yn gyffredinol, os oes gan Fil fwy na dau

ddiben/Rhan wahanol, nid yw dileu un o'r dibenion hynny o reidrwydd yn gyfystyr â dinistrio Bil.

**27.** Mewn unrhyw achos penodol, ystyrir pa mor sylweddol yw'r diben, i ba raddau y byddai ei ddileu yn effeithio ar weddill y dibenion, a pha mor agos y mae o ran pwnc i brif ddibenion eraill y Bil.

**28.** At hynny, pan fo Bil yn cael ei gyflwyno gyda chanlyniad i'w gyflawni neu ei gyflwyno mewn modd penodol, efallai na fydd gwelliant sy'n creu dull gwahanol o gyflawni'r un canlyniad yn dderbyniadwy.

Enghraifft – Cysondeb ag egwyddorion cyffredinol

Y Bil Amaethyddiaeth (Cymru)

Enw hir: Deddf gan Senedd Cymru i wneud darpariaeth am reoli tir yn gynaliadwy; i wneud darpariaeth sydd a wnelo â chymorth ar gyfer amaethyddiaeth ac mewn cysylltiad â hynny; i wneud darpariaeth am faterion sy'n ymwneud ag amaethyddiaeth a chynhyrchion amaethyddol; i ddiwygio Deddf Coedwigaeth 1967 mewn cysylltiad â thrwyddedau cwympo coed; ac i ddiwygio Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 mewn cysylltiad â gwaharddiadau yn ymwneud â maglau a thrapiau etc.

Gwelliannau nad ydynt yn anghyson â phenderfyniad y Senedd ar egwyddorion cyffredinol: Gwelliannau sy'n ceisio dileu'r darpariaethau yn y Bil sy'n newid *Deddf Coedwigaeth 1967*.

Rheswm: Mae gan y Bil fel y'i cyflwynwyd brif ddiben - gwneud darpariaeth ar gyfer rheoli tir yn gynaliadwy - wrth wneud darpariaeth ategol gysylltiedig i gyflawni pum diben arall sy'n ymwneud â chymorth ar gyfer amaethyddiaeth yng Nghymru, neu mewn cysylltiad â hi. Gellir ystyried y darpariaethau yn y Bil sy'n diwygio *Deddf Coedwigaeth 1967* fel un o'r dibenion ategol cysylltiedig hyn, ac ni fyddai eu dileu yn newid prif nod y Bil yn sylweddol.

Gwelliannau sy'n anghyson â phenderfyniad y Senedd ar egwyddorion cyffredinol: Gwelliannau sy'n ceisio cynnwys darpariaethau newydd i sefydlu rheoleiddiwr dŵr i Gymru.

Rheswm: Mae gan y Bil fel y'i cyflwynwyd brif ddiben - gwneud darpariaeth ar gyfer rheoli tir yn gynaliadwy - ac mae'n gwneud darpariaeth ar gyfer materion ategol cysylltiedig eraill. Mae rheoleiddiwr dŵr i Gymru yn rhywbeth na ellid ystyried yn rhesymol fod y Senedd wedi'i gymeradwyo wrth gytuno ar

egwyddorion cyffredinol y Bil, a byddai'n cael effaith ar faterion y tu hwnt i'r hyn y gellid ei ddosbarthu fel 'cysylltiedig ag amaethyddiaeth'.

**29.** Unwaith eto, os oes amheuaeth, dylai'r Aelodau ofyn am gyngor gan y clerc perthnasol cyn ceisio cyflwyno gwelliant.

## Cysondeb â phenderfyniadau a wnaed eisoes (Rheol Sefydlog 26.61(iv))

**30.** Bwriad y maen prawf hwn yw atal penderfyniadau rhag cael eu gwneud ar welliannau sydd wedi dod yn amhosibl ac atal penderfyniadau a wneir ar un gwelliant rhag cael eu gwrthdroi gan benderfyniad ar welliant dilynol yn ystod yr un cyfnod.

**31.** Mae'n bosibl y gallai gwelliant a oedd yn dderbyniadwy pan gafodd ei gyflwyno ddod yn anghyson â phenderfyniad a wneir ar welliant yn ystod yr un cyfnod. Yn yr achos hwn, byddai'r gwelliant cynharach yn achub y blaen ar y gwelliant neu'r gwelliannau diweddarach. Byddai'r gwelliant/gwelliannau yn cwympo, h.y. ni ellid ei alw neu eu galw i'w cynnig pan gaiff neu pan gânt eu cyrraedd mewn trafodion, ac felly ni allai neu ni allent fod yn destun pleidlais.

**32.** Er enghraifft, os yw gwelliant 1 yn hepgor adran 44 ac y cytunir arno, mae gwelliant 2 sy'n ceisio newid adran 44 wedi peidio â bod yn annerbyniadwy yn ystod trafodion oherwydd bod Aelodau eisoes wedi gwneud y penderfyniad i ddileu adran 44.

**33.** Nid yw'r rheol wedi'i bwriadu i atal y Senedd rhag ystyried rhinweddau cymharol gwelliannau sy'n cynrychioli ffyrdd ychydig yn wahanol o gyflawni'r un canlyniad neu welliannau sy'n ddewisiadau amgen uniongyrchol. Felly, mae'r rheol yn cael ei chymhwyso'n gul i hwyluso dadl wleidyddol ac, yn y pen draw, i alluogi Aelodau i wneud penderfyniadau.

**34.** Mae'r Rheol Sefydlog hon hefyd yn berthnasol i drafodion Cyfnod 3 pellach, y Cyfnod Adrodd pellach neu'r Cyfnod Ailystyried pellach. Mae trafodion o'r fath yn barhad o'u cyfnod, yn hytrach na chyfnodau newydd, ar wahân.

Enghraifft – Cysondeb â phenderfyniadau a wnaed eisoes

Mae gwelliannau y pleidleisiwyd arnynt yng Nghyfnod 3 yn gadael Bil gyda chyfeiriadau anghyson at enw corff statudol. Fodd bynnag, ni fyddai

gwelliannau arfaethedig ar gyfer trafodion Cyfnod 3 pellach a fyddai'n adfer y cyfeiriadau hynny neu'n rhoi ail gyfle i Aelodau ddiwygio'r cyfeiriadau nad ydynt wedi'u newid yng Nghyfnod 3 (oherwydd bod gwelliannau i wneud hynny wedi'u gwrthod drwy bleidlais) yn dderbyniadwy oherwydd byddent yn anghyson â phenderfyniadau a wnaed yn ystod yr un cyfnod.

## Cymhwysedd deddfwriaethol

**35.** Nid yw cymhwysedd deddfwriaethol yn faen prawf ar gyfer penderfynu a yw gwelliant yn dderbyniadwy ai peidio. Nid oes gan y Llywydd rôl wrth ystyried a allai gwelliannau arfaethedig fynd â Bil y tu allan i gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Fodd bynnag, caniateir i'r Senedd ddeddfu o fewn ei chymhwysedd yn unig, a gall Bil fod yn destun cyfeirio at y Goruchaf Lys ar sail cymhwysedd deddfwriaethol ar ôl iddo gael ei basio.

**36.** Wrth gyflwyno gwelliannau, efallai y bydd yr Aelodau yn dymuno rhoi sylw i faterion cymhwysedd deddfwriaethol a bod yn ymwybodol o'r posibilrwydd y bydd effaith gwelliant ar gymhwysedd deddfwriaethol yn cael ei chodi mewn dadl.

**37.** Gall dadansoddi cymhwysedd deddfwriaethol Bil neu unrhyw un o'i ddarpariaethau fod yn fater cymhleth, a dim ond y llysoedd sy'n gallu penderfynu yn bendant a yw darpariaeth o fewn cymhwysedd. Fodd bynnag, bydd y clercod, pan fo'n bosibl, yn ceisio rhybuddio Aelodau sy'n dymuno cyflwyno gwelliannau pan fônt yn ymwybodol o faterion cymhwysedd penodol. Pan fo'n bosibl, bydd y clercod yn ceisio cynghori ar ddulliau amgen a all osgoi'r materion hyn.